

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Fawrth, 29 Mawrth, 2016 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Mr J Cotterell, (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr K D Hughes, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mr D W Roberts, (Brynteg), Mrs D Roberts, (Benllech B), Miss N Williams, (Benllech B).

187 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2016.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

188 CYNGOR SIR YNYS MÔN -YMATEB I FATERION PRIFFYRDD

Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

189 CYNGOR SIR YNYS MÔN - GWYRO LLWYBR CYHOEDDUS RHIF 62.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Gyngor Sir Ynys Môn yn hysbysu gwiro Llwybr Cyhoeddus 62.

190 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

191 CYNGOR SIR YNYS MÔN - FFORWM GYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod y Fforwm Gyswllt a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor Sir ar 19 Tachwedd 2015.

192 UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL YNYS MON.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - cofnodion Pwyllgor Ardal Ynys Môn o Un Llais Cymru a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Llangefni ar yr 21 Ionawr 2016.

193 HORIZON NUCLEAR POWER.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - e-bost gydag ateb negyddol i gais y Cyngor Cymuned am gymorth ariannol tuag at uwchraddio'r sistem teledu cylch cyfyng o fewn y pentref.

194 GRANTIAU A RHODDION.

Cais am grant gan y canlynol :-

(i) Aelodau'r Cyngor Ysgol, Ysgol Goronwy Owen.

PENDERFYNWYD – trafod y cais fel rhan o eitem 8(dd) Grantiau a Rhoddion 2016/2017.

BILIAU A CHYFRIFON

195 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Accounting		
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£50-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
G E Pritchard	Costau Trafeilio	£606-60
G E Pritchard	Costau Postio	£112-99
G E Pritchard	Costau Swyddfa	£156-00
J D Roberts	Archwiliad Mewnol 2014/15	£65-00
Scottish Power	Goleuadau Nadolig	£19-89
Richard Edwards	Torri gwair a llwybrau	£2794-33

196 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Chwefror, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

197 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2015 i ddiwedd mis Chwefror, 2016.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

198 MYNWENT GYHOEDDUS LLANFAIR M.E.

Yn dilyn sgwrs rhwng aelod ac Ymgymwrwr lleol trafodwyd claddu ym mhen pellaf y Fynwent ac yn bennaf y rhes beddau agosaf i'r terfyn ochr Benllech. Roedd patrwm o ddefnyddio'r rhes nesaf i mewn i'r Fynwent wedi datblygu gan fod rhai yn credu fod craig yn y rhes gefn. O ganlyniad nid oedd defnydd llawn o'r tir yn cael ei wneud.

PENDERFYNWYD – gofyn i'r Clerc ysgrifennu at yr ymgymwrwr lleol i ddatgan fod cynrychiolydd o'r Cyngor, sef y Clerc neu'r Cadeirydd yn absenoldeb y Clerc i fod yn bresennol pan fod bedd newydd i'w hagor.

199 Y COD YMDDYGIAD.

Gan fod nifer o aelodau'r Cyngor Cymuned yn gweithredu ar Bwyllgor Codi Arian Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn 2017 ac o bosib fod Diddordeb Personol yn codi pan fo'r Cyngor yn trafod grantiau ariannol at yr Eisteddfod Genedlaethol penderfynwyd ceisio cyngor Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn.

Derbyniwyd e-bost gan y Swyddog Monitro yn cadarnhau fod gan aelodau'r Cyngor a oedd yn aelodau o'r Pwyllgor codi arian at Eisteddfod Genedlaethol Mon 2017 ddiddordeb Personol. Hefyd roedd y Swyddog Monitro o'r farn fod diddordeb Rhagfarn hefyd yn bodoli.

Yn y dyfodol felly pan fu'r Cyngor Cymuned yn trafod grantiau ariannol at Eisteddfod Genedlaethol Mon 2017 mae'n ofynnol i'r aelodau hyn ddatgan diddordeb Personol a Rhagfarnllyd, golyga hyn ddim trafod na phleidleisio a mynd allan o'r ystafell pan fydd yr eitem berthnasol yn cael ei drafod.

200 TELEDU CYLCH CYFYNG.

Eglurodd y Clerc fod camddealltwriaeth wedi bod wrth drafod cynnig cwmni'r "CCTV Services" i uwchraddio'r sustem bresennol. Nid oedd yn bosib cwblhau'r gwaith a rhannu'r gost dros ddwy flynedd ariannol fel y meddyliwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag roedd posib cwblhau rhan gyntaf yr uwchraddio yn y flwyddyn ariannol bresennol a chwblhau'r ail ran ym mlwyddyn ariannol 2017/2018.

Yn ogystal cafwyd cadarnhad na fuasai unrhyw gymorth ariannol tuag at yr uwchraddio yn dod gan gwmni "Horizon Nuclear Power" ac nid oedd unrhyw ateb wedi ei dderbyn ynglŷn â'r cais i gwmni "McCarthy & Stone".

Buasai rhan gyntaf y cynllun i'w gwblhau yn y flwyddyn ariannol bresennol yn golygu camerâu newydd o fewn canol y pentref, h.y o faes chwarae Caer Berllan ar hyd yr A5025 i westy'r Breeze Hill, hefyd darpar derbyn newydd o fewn Gorsaf yr Heddlu. Mae cost y rhan gyntaf o'r gwaith yn £33,693-71 a TAW.

Mae ail ran y gwaith yn ymestyn rhwydwaith y camerâu i lawr o'r Breeze Hill i'r Traeth ar gost o £10,013-90 a TAW. Bydd y gwaith yma'n cael ei wneud yn 2017/2018.

PENDERFYNWYD – derbyn y cynnig uchod sydd yn rhannu'r gost dros ddwy flynedd ariannol.

201 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2016/2017.

Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2016/17. Mae Adran 10 o'r Adroddiad yn berthnasol i Gynghorau Tref a Chymuned a gofynnwyd i'r cynnwys gael sylw gan aelodau'r Cyngor.

Mae'r Adroddiad yn manylu lwfansau sydd ar gael i aelodau sydd ar waith y Cyngor ac i ffwrdd o'i gwaith neu ddyletswyddau beunyddiol. Maent yn cynnwys y canlynol ; costau ffon a thechnoleg gwybodaeth, taliadau cyfrifoldeb, lwfans Maer / Cadeirydd a'u dirprwyon, lwfans presenoldeb, lwfans colled ariannol, cost trafeyddio a chynhaliadaeth, lwfans gofal.

Mae angen i bob Cyngor gyhoeddi manylion taliadau i aelodau yn flynyddol ar ei gwefan ac i gwblhau adroddiad i'r Panel ddim hwyrach na 30 o Fedi perthnasol i'r flwyddyn sydd newydd orffen.

202 LLYWODRAETH CYMRU, GORCHYMYN AWDURDODAU LLEOL (COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL) (CYMRU) (DIWYGIO) 2016.

I fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig yn unol ag Adran 51 o Ddeddf 2000. Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol ar gyfer aelodau Llywodraeth Leol fel a ganlyn. Yn gyntaf mae'r cyfeiriad at Swyddog Monitro yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at Swyddog Priodol y Cyngor. Yn ail caiff y rhwymedigaeth ar aelod i roi gwybod i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru am unrhyw achos posibl o dorri'r Ymddygiad ei hepgor o'r Cod. Yn drydydd caiff paragraff 10 (2) (b) ei hepgor o'r Cod.

PENDERFYNWYD – i fabwysiadu'r Cod Ymddygiad diwygiedig.

203 RHESTR GRANTIAU A RHODDION 2016/2017.

Ystyriwyd y rhestr grantiau a rhoddion 2015/16 a chafwyd trafodaeth parthed cymryd safbwynt mwy lleol gyda grantiau a rhoddion i'r dyfodol. Dilewyd nifer o gymdeithasau ac elusennau ac fe fydd rhestr ddiwygiedig i'w mabwysiadu yn rhaglen cyfarfod Ebrill o'r Cyngor Cymuned.

204 ARCHWILYDD MEWNOL.

I ystyried penodi Mr John Roberts fel Archwilydd Mewnol cyfrifon y Cyngor Cymuned am 2015/2016.

PENDERFYNWYD – i benodi Mr John Roberts fel Archwilydd Mewnol cyfrifon 2015/2016.

205 GWEFAN Y CYNGOR.

Yn anffodus eglurodd Mr G Harker-Roberts oherwydd pwysau gwaith nad oedd mewn sefyllfa bellach i gwblhau'r gwaith angenrheidiol i ddatblygu Gwefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD – diolch i Mr Harker-Roberts am ei waith cychwynnol. Gofynnwyd i'r Clerc gael costau cynhyrchu gwefan cynted a phosib.

206 PLAC COFFA.

Cafwyd cais gan deulu'r diweddar Mr John Regan i osod plac coffa ar un o'r seddau ar lan y môr ym Menllech ac i roi'r geiriau canlynol ar y plac, "In loving memory of John Regan who loved Benllech Bay".

PENDERFYNWYD - caniatáu'r cais ar eirfa berthnasol.

207 GWASANAETH LLYFRGELLOEDD MON.

Trafodwyd bwriad y Cyngor Sir i drosglwyddo Gwasanaeth Llyfrgelloedd y Sir i ofal grwpiau neu Gynghorau Cymunedol / Trefol. Roedd gwahanol opsiynau yn cael eu rhoi ymlaen ond dau or opsiynau oedd yn realistig.

Y cyntaf oedd trosi'r gwasanaeth yn gyflawn i ofal grŵp neu Gyngor, buasai hyn yn golygu bod yn gyfrifol am yr holl gostau i gynnwys yr adeiladau, y gweithlu a'r llyfrau. Roedd yr ail opsiwn yn golygu bod yn gyfrifol am gostau'r adeiladau yn unig gyda Chyngor Sir Mon yn gyfrifol am y gweithlu a'r llyfrau.

Cafodd yr opsiwn cyntaf ei ddiystyru gan nad oedd gan y Cyngor Cymuned yr adnoddau na'r cyllid i weithredu. Fodd bynnag teimlad yr aelodau oedd bod angen y Gwasanaeth Llyfrgell ym Menllech a'r ardal gyfagos ac y dylid gwneud ymdrech i ystyried yr ail opsiwn.

Mae swm costau cynnal adeilad y Llyfrgell ym Menllech wedi ei gyfartalu dros y tair blynedd diwethaf yn £4717 ar dreth annomestig yn £5422, sydd yn gwneud cyfanswm o £10,139. Buasai swm cyffelyb yn daladwy'n flynyddol ac yn golygu codiad o 21% ar Bresept 2016/17, sydd ei hun wedi codi 17% ar 2015/16.

Teimlad cyffredinol yr aelodau oedd bod yn annheg gofyn i'r Cyngor Cymuned dalu'r dreth annomestig yn ogystal â chostau cynnal a chadw'r adeilad. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu i Gyngor Sir Ynys Mon i ddatgan hyn yn glir.

CYNLLUNIO

208 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

30C787	Llain Wen, Ffordd yr Ysgol, Llanbedrgoch.
--------	---

209 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-30 yr hwyr.